

# Adroddiad y Comisiynydd 2010/11

Yn helpu i wneud Cymru yn wlad wych i heneiddio ynddi

Older People's Commissioner for Wales


Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

# Fformatau Hygyrch

Os hoffech gopi o’r ddogfen hon mewn Braille, print bras neu sain, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

**Ysgrifennwch at:** Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Adeiladau Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF10 5FL

**Ffôn:** 08442 640 670
**E-bost:** gofyn@olderpeoplewales.com
**Gwefan:** www.olderpeoplewales.com





# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 04 |
| Galwadau’r Comisiynydd | 06 |
| Sut yr ydym yn gweithio | 08 |
| Gwrando ar bobl hŷn | 12 |
| Prif bryderon pobl hŷn | 15 |
| Ein Hadolygiad o brofiadau pobl hŷn mewn ysbytai | 20 |
| Ein hamcanion: | 23 |
| 1. Hybu ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru | 23 |
| 2. Hybu darpariaeth cyfleoedd ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru a dileu gwahaniaethu yn eu herbyn | 28 |
| 3. Annog arfer gorau wrth ymdrin â phobl hŷn yng Nghymru | 30 |
| 4. Adolygu pa mor ddigonol ac effeithiol yw’r gyfraith sydd yn effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru | 33 |
| 5. Sicrhau bod modd cyflawni’r amcanion a restrir uchod mewn ffyrdd sy’n briodol a rheolaidd, yn ddoeth ac yn ddarbodus, sy’n defnyddio adnoddau yn effeithiol ac yn effeithlon ac sy’n adnabod ac yn rheoli risgiau | 35 |
| Rhagolwg | 38 |
| Diolch a chydnabyddiaeth | 40 |

# Rhagair

Eleni oedd blwyddyn gyntaf ein Cynllun Strategol tair blynedd, y cyfrannodd nifer o bobl hŷn ato. Yn hwn yr wyf wedi ymrwymo i ystod o weithrediadau o dan pob un o'm pwerau cyfreithiol ac mae'r Adroddiad hwn yn nodi'r cynnydd sylweddol y mae fy nhîm a minnau wedi'i gyflawni. Mae fy Nghynllun Strategol 2010-13 yn canolbwyntio ar bobl hŷn ac mae'n rhoi cyfeiriad a phwrpas clir i'r Comisiwn er mwyn i ni allu cyflawni'r canlyniadau gorau posibl.

Fel Comisiynydd defnyddiaf y pwerau a nodir yn Neddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Derbyniaf gefnogaeth gan dîm o staff, "y Comisiwn" a gyda'n gilydd rydym yn defnyddio ein sgiliau a'n hadnoddau i greu newid parhaol i bobl hŷn yng Nghymru.

Eleni mae'r Comisiwn wedi gweld cynnydd mewn gweithgaredd ac wedi gwneud gwahaniaeth ar draws pob maes. Mae hyn yn pwysleisio'r angen i'r Comisiynydd fod yn eiriolydd annibynnol cryf dros bobl hŷn yng Nghymru.

Addewais ddatblygu'r defnydd o'm pwerau cyfreithiol er mwyn gwneud cyfraniad effeithiol ac unigryw i gyflawni newid. Eleni cynhaliais fy Adolygiad cyntaf, i driniaeth pobl hŷn mewn ysbytai mewn perthynas ag urddas a pharch. Rwyf wedi defnyddio fy mhŵer i lunio argymhellion i gyrff yng Nghymru ac i ofyn am ymateb. Darganfyddais bod triniaeth rhai pobl hŷn mewn ysbytai yng Nghymru yn gywilyddus o annigonol.



Mae'n hanfodol bod trafodaeth gyhoeddus am y materion sydd yn effeithio ar bobl hŷn yn cael ei gynnal mewn modd sydd yn cydnabod y cyfraniad mawr a wnânt a'u rôl allweddol mewn cymunedau. Lleisiau pobl hŷn eu hunain, eu teuluoedd, cynhalwyr a chyd gleifion a wnaeth fy adolygiad o ysbytai yn bosibl. Maent yn hanfodol o ran arwain newid ac mae'r dystiolaeth a dderbyniwyd ganddynt yn sicrhau bod gwersi hanfodol yn cael eu dysgu am realiti profiadau gofal. Rwyf yn bryderus bod fy Adolygiad wedi darganfod bod gan nifer o bobl ddisgwyliadau isel ynglŷn â'u gofal. Mae pobl hŷn angen cefnogaeth i fynnu eu hawliau unigol.

Byddaf yn ystyried pa mor ddigonol yw'r ymatebion i argymhellion fy Adroddiad a byddaf yn ceisio sicrhau gwelliannau lle mae hynny'n angenrheidiol. Bydd y tîm a minnau yn gweithio gydag eraill i asesu effeithlonrwydd y newidiadau a gyflwynwyd i sicrhau bod gofal urddasol i bobl hŷn yn cael ei gyflwyno yn gyson.





Mae eiriolaeth wedi dod yn achos pryder cynyddol i mi. Mae'n holl bwysig fel dull o gefnogi pobl i wybod am eu hawliau ac i ymarfer yr hawliau hynny ac i wneud dewisiadau gwybodus. Dangosodd ein hymchwil gydag Age Cymru i ddarpariaeth gwasanaethau eiriolaeth bod ardaloedd helaeth yn parhau i fodoli yng Nghymru heb unrhyw ddarpariaeth eiriolaeth generig nac arbenigol wedi'i gyllido sydd yn darparu gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn. Mae rhai ardaloedd yn ceisio darparu gwasanaeth cyfyngedig oddi mewn i adnoddau sydd eisoes yn bodoli a gall hyn wthio'r gwasanaethau hyn i'r eithaf. Mae cael gwared ar y loteri cod post o ran argaeledd darpariaeth eiriolaeth i bobl hŷn yng Nghymru yn hanfodol, fel ag y mae sicrhau bod darpariaeth eiriolaeth wedi'i gyllido'n ddigonol. Rwyf hefyd wedi cyhoeddi canllaw ymarferol i weithwyr gofal cymdeithasol er mwyn gwella'r ddealltwriaeth a'r defnydd o'r gyfraith gyfredol sydd yn amddiffyn pobl hŷn. Byddaf yn cynnal gwaith pellach ar hyn. Mae'r cyfnod hwn o anhawster economaidd yn golygu sialensau i wasanaethau ar draws Cymru. Mae'n hanfodol nad yw hynny'n dadwneud y cynnydd cadarnhaol sydd eisoes wedi'i wneud na chwaith yn llesteirio datblygiad gwasanaethau cefnogaeth yn y gymuned er enghraifft, sydd yn atal derbyniadau y gellid eu hosgoi i ysbytai.

Mae pobl hŷn yn dweud wrthyf eu bod yn ei chael yn anos ymdopi'n ariannol wrth iddynt wynebu cynnydd mewn costau byw, yn cynnwys costau ynni, ar yr un pryd ag y maent yn ceisio ymdopi ar incwm cyfyngedig. Rwyf yn hynod o bryderus er enghraifft ynglŷn â chanfyddiadau ymchwil (a gomisiynwyd gan Gomisiwn Pobl Hŷn Cymru) ac a gynhaliwyd gan Gyngor ar Bopeth Cymru, i'r amrediad o bynciau yr oedd pobl hŷn yn eu trafod gyda nhw. Dengys yr ymchwil hwn gynnydd yn y nifer o ymholiadau am reoli dyledion gan bobl dros 60 oed, yn ogystal â phryderon am fudd-daliadau a phensiynau. Rhaid i Lywodraeth Cymru wneud rhagor i fynd i'r afael â thlodi ymysg pobl hŷn.

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn gyfle allweddol i ddileu gwahaniaethu ar sail oedran a hyrwyddo cydraddoldeb. Rwyf wedi gwrando ar brofiad pobl hŷn o gyflwyniad gwasanaethau cyhoeddus a byddaf yn trafod unrhyw bynciau neu bryderon gyda chyrff cyhoeddus er mwyn iddynt allu sicrhau bod pobl hŷn yn cael eu trin yn deg ac nad oes gwahaniaethu oherwydd eu hoedran.

Mae poblogaeth sydd yn heneiddio yn cael ei ystyried yn llawer rhy aml fel problem, ond mewn gwirionedd mae pobl hŷn eu hunain yn gwneud cyfraniad enfawr gan ddarparu swm enfawr o ofal di-dâl a gwaith gwirfoddol yn ein cymunedau. Maent yn gofalu am ei gilydd, am blant ac wyrion ac maent yn rhan allweddol o'r ysbryd cymunedol sydd yn diffinio Cymru. Ni ddylem fyth gymryd hyn yn ganiataol; ond dylem sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r sialensau y mae pobl hŷn yng Nghymru yn eu wynebu a gwneud Cymru yn wlad ardderchog i heneiddio ynddi.

**Ruth Marks**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**



# Galwadau gan y Comisiynydd

Ym mis Chwefror 2011 cynhyrchodd y Comisiynydd y ddogfen 'Oed yr Addewid', sydd yn amlinellu deg newid clir a chyflawnadwy y dylai Llywodraeth Cymru eu cyflwyno yn ystod tymor y Cynulliad hwn i wella bywydau pobl hŷn yng Nghymru.

Dyma'r deg galwad yn 'Oed yr Addewid':

**Tlodi: Ymagwedd gydol oes**
Mae'r Comisiwn yn credu ei bod yn amser i Lywodraeth Cymru ymestyn yr ymagwedd arloesol y mae wedi'i fabwysiadu tuag at dlodi plant ar draws pob oedran. Dylent gydnabod bod gan amgylchiadau ariannol perthnasau hŷn effaith ar bob cenhedlaeth mewn teulu.

**Adolygu'r gyfraith i amddiffyn pobl hŷn mewn perygl o niwed yn well**
Rydym eisiau gweld gwelliant i ddeddfwriaeth amddiffyn oedolion fel bod amddiffyniad oedolion mewn perygl o niwed yn derbyn cydnabyddiaeth statudol yn gyfwerth â'r ddarpariaeth ar gyfer amddiffyn plant ac amddiffyniad rhag trais domestig.

**Gwneud y mwyaf o'r Ddeddf Cydraddoldeb**
Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn cynnig cyfle pellach i roi terfyn ar wahaniaethu ar sail oedran yng Nghymru. Rydym eisiau i Lywodraeth Cymru ymrwymo i weithrediad effeithiol ei holl ddarpariaethau, a sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gwneud yr un fath.





**Rôl trafnidiaeth cyhoeddus mewn mynd i'r afael ag eithrio cymdeithasol**
Dylai Llywodraeth Cymru hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol ymysg cwmnïau bysiau, trwy eu hannog i gynnwys pobl hŷn mewn penderfyniadau ynglŷn â chysylltiadau trafnidiaeth a defnyddio anogaethau ariannol i gefnogi gwasanaethau hanfodol ond llai eu defnydd.

Dylent hefyd gydnabod y gwasanaeth pwysig y mae trafnidiaeth cymunedol yn ei ddarparu wrth gyrraedd y bobl hynny sydd ag anghenion neilltuol neu sydd yn methu â chael gafael ar drafnidiaeth cyhoeddus.

**Datblygu gwell gwasanaethau eiriolaeth i bobl hŷn**
Mae'r Comisiwn yn credu y dylid cael Strategaeth a Chynllun Gweithredu Eiriolaeth i bobl hŷn yng Nghymru. Mae Eiriolwyr yn gwneud gwahaniaeth holl bwysig i rai pobl hŷn a fyddent fel arall yn methu ag ymdopi, neu yn destun camdriniaeth ac esgeulustod posib.

**Gwella a hyrwyddo cyfleusterau cymunedol i bobl hŷn**
Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gynnwys pobl hŷn yn uniongyrchol mewn cynllunio cymunedol a gwneud penderfyniadau yn lleol. Dylai hyn gynnwys ymestyn allan at bobl hŷn o leiafrifoedd ethnig, ac at y bobl hynny y mae ymgynghoriadau ffurfiol weithiau yn eu hesgeuluso. Dylai awdurdodau cyhoeddus wneud rhagor hefyd i hyrwyddo'r defnydd o gyfleusterau sydd eisoes yn bodoli ymysg pobl hŷn a nodi cyfleusterau sydd yn 'gyfeillgar i bobl hŷn'.

**Diwygio cyllido gofal cymdeithasol**
Mae'r Comisiwn yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu ar y gydnabyddiaeth gyffredinol bod y trefniadau ar gyfer talu am ofal yn annheg ac yn anghynaladwy. Wrth ddatblygu system newydd ar gyfer cyllido gofal dylai Llywodraeth y Cynulliad gofio am Egwyddorion Personau Hŷn y Cenhedloedd Unedig a sicrhau nad yw trefniadau yn gwahaniaethu ar sail oedran.

**Sicrhau urddas a pharch i gleifion mewnol ysbytai**
Byddwn yn disgwyl i Lywodraeth Cymru, pob Bwrdd Iechyd, ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre dderbyn a gweithredu'r argymhellion yr ydym wedi'u gwneud yn 'Gofal gydag Urddas?' o ganlyniad i'n Hadolygiad i brofiadau pobl hŷn fel cleifion mewnol ysbytai.

**Lleihau derbyniadau y gellir eu hatal i ysbytai a hyrwyddo annibyniaeth**
Dylai Llywodraeth Cymru werthuso cynlluniau lleol sydd â'r nod o gadw pobl yn iach ac osgoi ymweliadau diangen i ysbytai. Dylid defnyddio dulliau llwyddiannus i lywio cynllun gweithredu Cymru gyfan ar iechyd ataliol.

**Gwella darpariaeth cynorthwyon ac addasiadau a ddarperir gan awdurdodau lleol**
Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gwasanaethau cynorthwyon ac addasiadau cartref yn gyson ar draws Cymru. Mae gan amseroedd aros hir am addasiadau sylweddol effaith amlwg ar ansawdd bywyd person. Dylent hefyd gydnabod pwysigrwydd modd o gael gafael ar wybodaeth ddibynadwy am y gwasanaethau hyn.

# Yr hyn yr ydym yn ei wneud


## Fel Comisiwn Pobl Hŷn Cymru, rydym yn defnyddio ein pwerau unigryw i gyflawni'r canlynol:

**Hybu ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn**
Trwy ymgysylltu gyda rhai sydd yn gwneud penderfyniadau a'r cyfryngau ar draws pob maes o fywyd cyhoeddus, mae'r Comisiwn yn codi ymwybyddiaeth o'r cyfraniad a wna pobl hŷn i gymdeithas yng Nghymru, ac o'r nifer o sialensau y mae nifer o bobl hŷn yn eu wynebu wrth fyw bywydau urddasol a bodlon. Mae'r Comisiwn yn rhoi llais cryf i'r materion sydd o bwys i bobl hŷn.

**Herio gwahaniaethu ar sail oedran**
Mae pobl hŷn yn unigolion gyda dyheadau, anghenion ac amgylchiadau amrywiol. Rydym yn manteisio ar bob cyfle i bortreadu pobl hŷn mewn ffyrdd sydd yn gytbwys a realistig, ac sydd yn pwysleisio nad oes modd cael un barn yn unig ar bobl hŷn a'u bywydau. Rydym yn ceisio cynyddu ymwybyddiaeth o'r gwahaniaethu a'r anghydraddoldeb y mae pobl hŷn yn eu wynebu ar draws pob maes o'u bywydau, ac rydym yn herio tybiaethau, rhagfarnau a'r gyfraith pan fo angen.

**Annog arfer gorau**
Trwy ein holl waith rydym bob amser yn ceisio adnabod ac annog arfer gorau ymysg pawb sydd yn darparu gwasanaethau sydd yn effeithio ar bobl hŷn. Defnyddiwn ein gweithgaredd ymchwil ein hunain a'n cysylltiadau rheolaidd gyda rhai sydd yn gwneud penderfyniadau i amlygu enghreifftiau o arfer gorau a herio eraill i fabwysiadu ymagweddau effeithiol a phrofedig er budd pobl hŷn

**Adolygu'r gyfraith**
Mae cyfraith effeithiol, dealladwy a hygyrch yn gydran allweddol mewn cyflawni cymdeithas lle mae pobl hŷn a'u hawliau yn cael eu hamddiffyn. Trwy weithio gyda phobl hŷn ac arbenigwyr cyfreithiol rydym yn archwilio'r meysydd lle mae angen esbonio neu wella'r gyfraith a gwneud cynrychioliadau i lywodraethau Cymru a'r DU.





### Cynghorion ar gyfer ymddeoliad iach a hapus

Ysgrifennodd Mr K at y Comisiwn gyda chynghorion ar gyfer ymddeoliad iach a hapus. Mae'r rhain yn cynnwys cynnal agwedd cadarnhaol, gweithgaredd corfforol, ffordd o fyw iachach, cerdded pan fo'n bosibl a chael gwiriadau iechyd rheolaidd gan y meddyg. Mae hefyd yn awgrymu cynnal bywyd cymdeithasol da gyda theulu a ffrindiau, teithio os gallwch fforddio gwneud hynny a pheidio â threulio gormod o amser yn gwylio'r teledu neu yn eistedd wrth y cyfrifiadur.

Mae Mr K yn mynd ymlaen i esbonio bod angen cynllunio ymddeoliad o flaen llaw er mwyn gwneud yr addasiadau i'ch ffordd o fyw a chofio bod ymddeoliad yn sylfaenol wahanol i'ch bywyd gwaith.

# Pan fydd Pobl Hŷn yn cysylltu â ni

## Caiff pob ymholiad ei drosglwyddo i Dîm Gwybodaeth ac Ymholiadau'r Comisiwn.

Yn 2010-11, derbyniodd y Comisiwn amrediad eang o ymholiadau gan bobl hŷn a'u teuluoedd. Nodwyd newid amlwg yn amrywiaeth a chymhlethdod yr ymholiadau hynny.

Pan fo pobl hŷn yn cysylltu gyda'r Comisiwn mae'r Tîm Gwybodaeth ac Ymholiadau yn rheoli eu hymholiadau mewn nifer o ffyrdd gwahanol.

### Cyfeirio

Yn gyntaf rydym yn ceisio cynorthwyo pobl hŷn yn gyflym ac yn effeithiol a darparu'r wybodaeth fwyaf priodol a defnyddiol iddynt. Byddwn yn gwneud hyn trwy gyfeirio ymholydd at yr asiantaeth sydd yn gallu eu cynorthwyo gyda'u hymholiad.

### Atgyfeirio


Mae amgylchiadau yn bodoli weithiau lle nad yw pobl hŷn, oherwydd iechyd gwael, unigrwydd neu natur fregus yn gallu cael gafael ar wasanaethau ar eu pennau eu hunain. Mewn sefyllfa o'r fath bydd y Tîm Gwybodaeth ac Ymholiadau yn atgyfeirio i gyrff eraill sydd yn gallu eu cynorthwyo. Yna bydd y Tîm yn sicrhau bod y person hŷn yn derbyn y gwasanaethau y maent eu hangen. Rydym wedi datblygu cytundebau gydag asiantaethau allweddol i sicrhau bod y broses hon yn gweithio'n effeithiol.

### Cymorth Uniongyrchol

Mewn sawl achos, bydd cymhlethdod ymholiad yn galw am fwy o gyfranogiad ac ymchwiliad pellach. Er enghraifft, gall y Tîm Gwybodaeth ac Ymholiadau gynnal trafodaeth gyda phobl hŷn a'u darparydd/darparwyr gwasanaeth a cheisio cael datrysiad anffurfiol trwy ymyrryd mewn anghydfod. Yn aml mae hyn o fudd i'r person hŷn ac i'r darparydd gwasanaeth oherwydd gall arwain at ddatrysiad cyflym ac yn aml gall osgoi prosesau cwyno maith. Mewn achosion lle mae person hŷn yn dymuno gwneud cwyn ffurfiol yn erbyn corff, gall y Tîm ddarparu cefnogaeth gyda'r broses gwyno a thrwy gydol y broses honno. Bydd y Tîm Gwybodaeth ac Ymholiadau hefyd yn gweithio'n gydweithredol gyda'r Tîm Adolygu, Archwilio a Pholisi i ddatblygu ymholiadau sydd o ddiddordeb ehangach i bobl hŷn ar draws Cymru.

Yn ogystal â'r nifer cynyddol o ymholiadau a materion cymhleth yr ydym yn mynd i'r afael â nhw, rydym hefyd yn falch o dderbyn gwybodaeth am brofiadau ac adborth cadarnhaol.

# Gwrando ar bobl hŷn ar draws Cymru




Gwrando ar bobl hŷn

Dyma enghraifft o rai o'r grwpiau a'r lleoedd yr ydym wedi ymweld â nhw:

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Prosiect Rhyng-genhedlaeth | Aberdâr |
| 2 | Cynhadledd Cymdeithas Trafnidiaeth Cymunedol | Abertawe |
| 3 | Cyfarfod Cydlynwyr Strategaeth pobl hŷn | Aberystwyth |
| 4 | Fforwm Partneriaeth Cenedlaethol | Bangor |
| 5 | Iechyd Gwledig i Bobl hŷn | Bermo |
| 6 | Ymgyrch Ymwybyddiaeth Trosedd wrth y Drws Cymru Gyfan | Caerdydd |
| 7 | Dim Ond Rhif yw Oedran | Caerffili |
| 8 | Gwirfoddolwyr Robin Goch | Casnewydd |
| 9 | Fforymau 50+ | Ceredigion |
| 10 | Diwrnod Ymwybyddiaeth Hynafgwyr y Byd | Conwy |
| 11 | Eisteddfod Genedlaethol Cymru | Glyn Ebwy |
| 12 | Fforwm 50+ | Hwlffordd |
| 13 | Cyfarfod Pensiynwyr Cymru | Llandrindod |
| 14 | Cynhadledd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol/Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | Llandudno |
| 15 | Canolfan Lles ac Adfywio | Llanelli |
| 16 | Sioe Amaethyddol Cymru | Llanelwedd |
| 17 | Clwb Nant y Pandy | Llangefni |
| 18 | Grŵp Cyfeillgarwch Llanymddyfri | Llanymddyfri |
| 19 | Fforwm pobl hŷn | Merthyr Tudful |
| 20 | CCB Gofal Croesffordd Cwm Taf | Pontypridd |
| 21 | Rali Cymru Cymdeithas Genedlaethol Pensiynwyr | Port Talbot |
| 22 | Symposiwm Cymru Gyfan | Porthmadog |
| 23 | Symposiwm yr Eglwys yng Nghymru | Powys |
| 24 | Age Concern Cymru | Sir Drefaldwyn |
| 25 | Fforymau pobl hŷn | Sir y Fflint |
| 26 | Gwasanaethau Atal Cwympiadau | Torfaen |
| 27 | Fforwm 50+ Rhondda Uchaf | Treorci |
| 28 | My Home Life Cymru | Wrecsam |
| 29 | Cylch Merched Santes Helen | Y Barri |
| 30 | Eisteddfod Ddwyieithog Pobl Hŷn | Ynys Môn |

## Ymweliadau lleol – Arfer gorau a sialensau allweddol

Trwy gydol y flwyddyn bu'r Comisiynydd a'r Dirprwy Gomisiynydd, ynghyd â staff eraill y Comisiwn yn ymweld ag amrywiaeth eang o grwpiau, cyrff a chynrychiolwyr pobl hŷn ar draws Cymru.

Fe wnaethom gydnabod a dathlu cyfraniad pobl hŷn i fywyd yng Nghymru mewn digwyddiadau allweddol yn cynnwys yr Eisteddfod Genedlaethol, Sioe Amaethyddol Cymru, yn ogystal â thrwy gyfrwng y cyfryngau. Fe wnaethom gyfarfod pobl hŷn a grwpiau buddiannau pobl hŷn ar draws Cymru. Yn aml cyfarfod â phobl hŷn yn eu cymunedau eu hunain yw'r ffordd orau o ddarganfod beth yw eu problemau a'u pryderon lleol. Mae hyn hefyd yn rhoi cyfle i ni ddarganfod rhagor am rhywfaint o'r gwaith ardderchog sydd yn cael ei gyflawni i wella bywydau pobl hŷn o gwmpas Cymru a rhannu'r enghreifftiau hyn o arfer da gyda rhan ddeiliaid a grwpiau pobl hŷn eraill o gwmpas y wlad.

Mae'r ymweliadau yn ein galluogi i ddarparu gwybodaeth am waith a blaenoriaethau'r Comisiwn. Rydym yn rhannu'r wybodaeth am yr ymweliadau hyn yn rheolaidd trwy ein gwefan, cylchlythyr a chyfryngau lleol.

## Diwrnod Rhyngwladol Personau Hŷn y Cenhedloedd Unedig

Ar 1 Hydref 2010, cyflwynodd Ruth Marks ei Hadroddiad i'r Prif Weinidog yn y cyfarfod cyntaf o Senedd Pobl Hŷn Cymru. Galwodd am amddiffyn gwasanaethau i bobl hŷn mewn sefyllfaoedd bregus yn ystod y cyfnod hwn o ostyngiadau sylweddol mewn cyllid gwasanaethau cyhoeddus. Ar y Diwrnod Rhyngwladol Personau Hŷn hwn cydnabu'r Comisiynydd y cyfraniad mawr y mae pobl hŷn yn ei wneud i fywyd yng Nghymru a'r angen i uno gyda'n gilydd i fynd i'r afael â rhagfarn a gwahaniaethu.

> "Rwyf yn sylweddoli beth yw'r sialensau sydd yn wynebu gwasanaethau cyhoeddus; mae pob un ohonom yn deall y bydd gostyngiadau mewn gwariant cyhoeddus. Credaf ei bod yn hanfodol bod cyrff sector preifat, cyhoeddus a gwirfoddol yn ymgysylltu'n llawn gyda phobl hŷn i gyflwyno'r gwasanaethau gorau posibl o fewn y cyfyngiadau ariannol newydd."
>
> **Ruth Marks, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**





# Prif bryderon pobl hŷn

Mae pobl hŷn, eu teuluoedd a'u gofalwyr ar draws Cymru yn cysylltu bob dydd gyda'r Comisiwn i sôn am y problemau a'r pryderon sydd yn effeithio arnynt hwy a'u hardaloedd. Y pedair thema mwyaf cyffredin y cysylltwyd â ni yn eu cylch y llynedd oedd iechyd (23.5%), gofal (15.8%), tai (10.1%) a phroblemau ariannol ( (8.8%). Mae hyn yn adeiladu ar dystiolaeth y llynedd.

| | |
|---|---|
| Cam-drin | 2.1% |
| Gofal | 15.8% |
| Cymuned | 5.9% |
| Materion Defnyddwyr | 4.2% |
| Anabledd / Hygyrchedd | 1.6% |
| Gwahaniaethu | 1.8% |
| Addysg a Dysgu | 1.5% |
| Cyflogaeth / Oedran ymddeol | 0.5% |
| Ynni | 5.8% |
| Amgylchedd | 0.3% |
| Cyffredinol | 7.4% |
| Iechyd | 23.5% |
| Tai | 10.1% |
| Hawliau Dynol / Urddas | 1.4% |
| Cyfreithiol | 1.3% |
| Pensiwn / Ariannol | 8.8% |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 2.5% |
| Chwaraeon a Hamdden | 1.4% |
| Trafnidiaeth | 4.1% |
| Cyfanswm | 100% |

## 1. Iechyd

Cafwyd ymateb sylweddol gan y cyhoedd i Adolygiad y Comisiynydd i urddas a pharch mewn ysbytai. Derbyniwyd dros 180 o ymatebion i'r Alwad am Dystiolaeth yn ystod haf 2010 ac yn dilyn lansio'r Adroddiad Gofal gydag Urddas? ar 14 Mawrth 2011 cysylltodd nifer o bobl hŷn a'u teuluoedd gyda'r Comisiwn er mwyn rhannu eu profiadau o driniaeth gwael mewn ysbytai gyda ni. Roedd bron i chwarter yr holl ymholiadau a dderbyniodd y Comisiwn yn ymwneud â phobl hŷn a gofal iechyd yng Nghymru.

> Rydym yn parhau i dderbyn cryn dipyn o ohebiaeth am ansawdd gofal mewn lleoliadau iechyd a chymunedol. Mae hyn yn arwydd o gryfder teimladau am y pwnc hwn oherwydd yr effaith mawr y mae derbyn gofal yn ei gael ar fywydau pobl.
>
> **Alison Evans, Rheolwraig Gwybodaeth ac Ymholiadau, Comisiwn Pobl Hŷn Cymru**

**Astudiaeth Achos Iechyd – Cymorth Uniongyrchol**

Cysylltodd Mrs G â'r Comisiwn i ddweud wrthym ei bod wedi bod yn aros am sawl mis i gael ei chanlyniadau pelydr-X. Bu'n rhaid iddi gael pelydr-X er mwyn diagnosio cyflwr oedd yn achosi cryn dipyn o boen i Mrs G yn ei hysgwydd. Aeth sawl wythnos heibio ac nid oedd Mrs G na'i meddyg teulu wedi clywed dim gan yr adran pelydr-X.

Gyda chaniatâd Mrs G cysylltodd y Comisiwn gyda rheolwr cwynion y Bwrdd Iechyd Lleol a chyflwyno pryderon Mrs G iddo. Dywedodd y rheolwr cwynion wrthym bod canlyniadau pelydr-X Mrs G ar gofnod, ond nad oedd llythyr cyflwyno gydag ef ar gyfer y meddyg teulu – yn awgrymu nad oedd y canlyniadau wedi'u hanfon. Sicrhawyd ni gan y rheolwr cwynion y byddai'r canlyniadau'n cael eu hanfon ar unwaith at y meddyg teulu ac y byddent yn ymchwilio i weld sut yr oedd y camgymeriad hwn wedi digwydd.

Cysylltodd y Comisiwn gyda Mrs G i ddweud wrthi am y sgwrs rhwng y Comisiwn a'r Bwrdd Iechyd Lleol. Fe wnaethom hefyd roi gwybodaeth a chanllaw cam wrth gam iddi yn benodol ar broses gwynion y Bwrdd Iechyd. Rhoddodd y Comisiwn wybodaeth gyswllt hefyd i Mrs G ar gyfer ei Chyngor Iechyd Cymuned a fyddai'n gallu rhoi cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth i Mrs G trwy gydol y broses.





## 2. Gofal

Mae pobl hŷn wedi cysylltu gyda'r Comisiwn gydag ymholiadau am ofal, yn amrywio o bryderon dros fwriad i gau cartrefi gofal, i driniaeth pobl hŷn sydd yn derbyn gwasanaethau gofal.

Mae'r Comisiwn yn ymwybodol bod newidiadau mawr yn digwydd mewn gwasanaethau gofal ond mae'n dadlau'n gyson na ddylai pobl hŷn gael eu heffeithio yn anghymesur gan newidiadau o'r fath. Rydym yn derbyn bod amgylchiadau lle mae'n rhaid i wasanaethau gofal orfod newid efallai, ond rydym yn pwysleisio y dylid rhoi ystyriaeth gywir i bobl hŷn a'u teuluoedd mewn unrhyw drafodaeth a bod ymgynghori llawn yn digwydd.

Dylai pob ymgynghoriad ar newidiadau i ddarpariaeth gofal sydd eisoes yn bodoli fod yn deg ac yn ddiduedd a dylai gymryd ystyriaeth llawn o hawliau, anghenion a dymuniadau pobl hŷn. Dylai ymgynghoriadau fod wedi'u cynllunio'n dda a dylent roi cyfle gwirioneddol i'r holl ran ddeiliaid gyfranogi. Dylai'r broses o wneud penderfyniadau fod yn dryloyw, a mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd yn ystod y broses ymgynghori, a bod yn atebol i graffu allanol.

Mae'r Comisiwn yn gweithio mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Abertawe i edrych ar brofiad pobl hŷn pan fo cartrefi gofal yn cau. Bydd yr ymchwil yn cynnwys argymhellion a bydd wedi'i gwblhau ym mis Tachwedd 2011/12.

**Astudiaeth Achos Gofal – Cymorth Uniongyrchol**

Cysylltodd Miss E â'r Comisiwn ar ran ei thad oedd angen cymorth gofal ychwanegol. Hysbysodd Miss E y Comisiwn mai hi oedd unig gynhaliwr ei thad ar hyn o bryd ond nad oedd bellach yn gallu ymdopi gyda galwadau gofal llawn amser. Roedd yr awdurdod lleol ar hyn o bryd yn darparu 1 awr o ofal yr wythnos, ond ei bod yn teimlo ei bod angen cefnogaeth ychwanegol. Dywedodd Miss E wrthym ei bod wedi cysylltu gyda'r awdurdod lleol i ofyn am ofal ychwanegol ond eu bod wedi dweud wrthi nad oedd hynny'n bosibl.

Roedd Miss E wedi bod wedi ceisio cysylltu gyda'i gweithiwr cymdeithasol i ofyn am ail asesiad ond er iddi adael sawl neges nid oedd y gweithiwr cymdeithasol wedi ateb ei galwadau. Roedd Miss E yn teimlo bod eu hanghenion yn cael eu hanwybyddu gan y gwasanaethau cymdeithasol.

Gyda chaniatâd Miss E, cysylltodd y Comisiwn gyda'r awdurdod lleol i godi'r mater gyda Rheolwr Gofal y Gwasanaethau Cymdeithasol. Fe'n hysbyswyd bod y gwasanaethau cymdeithasol yn ymwybodol o'r mater a'u bod yn cydnabod bod methiannau difrifol wedi bod mewn cyfathrebu. Sicrhaodd y Rheolwr Gofal y Comisiwn bod y mater bellach yn cael ei drafod a bod achos tad Miss E yn cael ei adolygu. Dywedwyd wrthym hefyd bod tad Miss E yn mynd i gael ei ail asesu ar gyfer gofal ychwanegol.

## 3. Tai

Yn 2010-11, roedd 10.1% o'r holl ymholiadau yn ymwneud â materion yn berthynol i dai. Roedd yr ymholiadau hyn yn amrywio o unigolion yn cysylltu â ni ynglŷn â gwaith trwsio syml, i gymdeithasau preswylwyr yn gofyn i ni edrych ar gyfrifoldebau Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu.

Yn ystod y flwyddyn cryfhaodd y Comisiwn ei bartneriaeth gyda Gofal a Thrwsio Cymru a siaradodd y Comisiynydd yn eu Cynhadledd Flynyddol yn Llandudno. Bu'r Comisiwn yn gweithio gyda Gofal a Thrwsio Cymru, Coleg Brenhinol Therapyddion Galwedigaethol ac Age Cymru ar fater cynorthwyon ac addasiadau.

**Astudiaeth Achos Tai – Cymorth Uniongyrchol**

Mae Mrs A yn byw ar ei phen ei hun mewn tŷ cyngor. Yn hwyr ym mis Tachwedd 2010, sylwodd Mrs A ar dwll yn nenfwd ei hystafell wely a hysbysodd y Cyngor.Trefnodd yr awdurdod lleol i gontractwyr adeiladu wneud y gwaith trwsio.

Tair wythnos yn ddiweddarach, yn dilyn glaw trwm, sylwodd Mrs A bod dŵr yn gollwng trwy'r nenfwd unwaith eto. Dringodd i'r llofft a gwelodd bod dwy o'r teils oedd wedi'u trwsio ar y to wedi llithro a bod glaw yn dod i mewn i'r llofft.

Cysylltodd Mrs A â'r Comisiwn pan ddywedodd yr awdurdod lleol wrthi y byddai'n rhaid i'r gwaith trwsio ar y to aros gan fod y contractwyr yn anfodlon gweithio ar y to yn ystod yr amodau 'rhewllyd' cyfredol.

Cysylltodd y Comisiwn gydag adran dai y cyngor lleol a mynegi pryder ynglŷn â'r oedi.

Y diwrnod canlynol cysylltodd Mrs A gyda'r Comisiwn a dweud wrthym, yn fuan ar ôl i ni ffonio'r cyngor, bod y contractwyr wedi ymweld â chartref Mrs A ac wedi gwneud y gwaith trwsio ar y to. Cadarnhawyd hynny yn fuan wedyn gan y cyngor lleol a gysylltodd gyda'r Comisiwn i roi'r newyddion diweddaraf i ni.





## 4. Ariannol

Mae pobl hŷn sydd yn poeni am faterion ariannol a'r her o fyw ar incwm sefydlog yn cysylltu'n rheolaidd â ni. Mae ymholiadau yn amrywio o achosion o gam-drin ariannol, i gwestiynau am bensiynau a mynediad i wasanaethau ariannol.

Mae byw ar incwm sefydlog yn parhau yn bryder mawr i nifer o bobl hŷn. Cyfunwch hyn gyda chynnydd mewn costau tanwydd a bwyd ac mae sefyllfa anodd yn gwaethygu'n fawr iawn.

"Mae pobl hŷn yn dweud wrthyf yn gyson eu bod yn cael anhawster i gael dau ben llinyn ynghyd a bod llywio ei ffordd trwy'r system dreth a budd-daliadau yn gallu bod yn ddryslyd a rhwystredig. Mae'r dirywiad economaidd wedi taro pobl hŷn yn galed. Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau yng Nghymru sicrhau bod modd i bobl hŷn yng Nghymru gael gafael ar y cymorth a'r gefnogaeth angenrheidiol i wneud y mwyaf o'u hincwm."

**Ruth Marks,
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru,
mewn datganiad ar y cyd gyda
Chyngor ar Bopeth Cymru.**

**Astudiaeth Achos Ariannol – Atgyfeirio**

Cysylltodd Mr D gyda'r Comisiwn oherwydd ei fod yn bryderus iawn am ei sefyllfa ariannol. Esboniodd Mr D mai dim ond talu am ei fwyd yr oedd ei bensiwn a'i fod yn cael trafferth i dalu biliau trydan, nwy a'r Treth Gyngor. Dywedodd Mr D wrthym hefyd ei fod yn poeni'n ofnadwy oherwydd ei fod yn derbyn nifer o filiau terfynol.

Gyda chaniatâd Mr D atgyfeiriodd y Comisiwn ef at gorff sydd yn darparu gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth ar faterion ariannol. Roedd y corff hefyd yn darparu cyngor gyda cheisiadau hawliadau.

Cysylltodd cynrychiolydd o'r corff hwn â'r Comisiwn ar ôl bod yn gweld Mr D a rhoi'r newyddion diweddaraf i ni. Roedd Mr D wedi derbyn cymorth gyda'i gais am hawliadau a bod ei gais wedi bod yn llwyddiannus. Roedd hyn yn golygu bod Mr D yn derbyn cymorth ariannol sylweddol yn cynnwys gostyngiad mawr yn ei fil Treth Cyngor a hawliadau budd-dal tai llawn.

Dywedodd y corff wrth y Comisiwn y byddent yn parhau i roi cyngor a chefnogaeth i Mr D gyda'i gyllid.

# ‘Gofal gydag Urddas?’ Ein Hadolygiad o brofiad pobl hŷn mewn ysbytai

Ym mis Mawrth 2010 fe wnaethom gyhoeddi y byddem yn defnyddio ein pwerau cyfreithiol o Adolygiad i archwilio i driniaeth pobl hŷn mewn ysbytai, gan ganolbwyntio’n arbennig ar urddas a pharch. Er mwyn casglu ac asesu’r dystiolaeth fe wnaethom sefydlu Panel Ymchwilio dan arweiniad y Fonesig Deirdre Hine DBE FFPH FRCP FLSW, cyn Brif Swyddog Meddygol Cymru.

### Gwaith y Panel Ymchwilio

Gofynnodd y Panel am dystiolaeth ynglŷn â phrofiad pobl hŷn mewn ysbytai yng Nghymru mewn perthynas ag urddas a pharch, ac ystyried y dystiolaeth honno. Cyhoeddwyd yr Adolygiad ym mis Mawrth 2010 a chyflwynwyd adroddiad ac argymhellion ym mis Mawrth 2011. Derbyniwyd tystiolaeth ysgrifenedig gan bobl hŷn, eu teuluoedd, cynhalwyr a phobl yn gweithio yn y GIG ac ymwelodd y Panel â 16 o ysbytai ar draws Cymru.



### Canfyddiadau’r Panel

Darganfu’r Panel enghreifftiau o arfer gwael a da. Roedd enghreifftiau o arfer gwael yn cynnwys peidio â helpu rhywun i fynd i’r toiled, anwybyddu preifatrwydd pobl â pheidio â chyfathrebu’n dda gyda chleifion. Fe wnaethant ddarganfod hefyd bod gan bobl ddisgwyliadau isel iawn o’r hyn i’w ddisgwyl o ran urddas a pharch mewn ysbytai.

Cafwyd enghreifftiau cadarnhaol yn cynnwys arweinyddiaeth effeithiol ar y ward, a phobl hŷn yn dweud wrthym cymaint yr oeddent yn gwerthfawrogi gofal da.

> “Dwi ddim yn gwybod pam fy mod yma. Dwi ddim yn gwybod beth sy’n bod arna’i na beth y mae nhw’n ei wneud. Dwi ddim yn gwybod pryd y byddaf yn cael mynd adref. Dwi’n teimlo’n gaeth.”
>
> **Claf**





> “...roedd y nyrsus a’r meddygon mor gwrtais ac yn treulio amser i siarad gyda mi. Roeddent yn rhoi dewisiadau i mi ac yn gwrando arna’i. Roeddent yn fy nhrin fel person ac nid fel claf.”
>
> **Claf**

### ‘Gofal gydag Urddas?’ Adroddiad ac Argymhellion

Ar 14 Mawrth 2011, cyhoeddodd y Comisiynydd ei hadroddiad, ‘Gofal gydag Urddas? Profiadau pobl hŷn mewn ysbytai yng Nghymru’. Roedd yn anfon neges gref bod triniaeth rhai pobl hŷn mewn ysbytai yng Nghymru yn gywilyddus o annigonol a bod arferion yn bodoli na ddylid eu dioddef oddi mewn i system gofal iechyd yng Nghymru.

Yn seiliedig ar ganfyddiadau’r Panel fe wnaeth y Comisiynydd 12 argymhelliad, wedi’u hanelu at y Byrddau a’r Ymddiriedolaeth Iechyd, Llywodraeth Cymru a’r Awdurdodau Lleol yng Nghymru.

### Y camau nesaf

Mae ‘Gofal gydag Urddas?’ yn cyflwyno’r achos dros newid ac mae’n dangos sut y mae gofal ysbyty yn esgeuluso pobl hŷn mewn gormod o achosion. Y bwriad yw gwneud gwahaniaeth go iawn a bod yn ffynhonnell o gryfder a chefnogaeth i’r holl bobl sydd yn ceisio cyflawni newid. Dim ond un cam oedd lansio’r Adolygiad ym mis Mawrth mewn proses llawer hirach. Cafodd y Byrddau Iechyd, yr Ymddiriedolaeth, Llywodraeth Cymru tan 14 Mehefin 2011 i ymateb, gan nodi sut y maent yn bwriadu cydymffurfio.

Byddwn yn gweithio gyda chyrff eraill i fonitro gweithrediad ein hargymhellion. Mae llawer o’r hyn a ddysgom yn ystod cyfnod yr Adolygiad yn berthynol i leoliadau gofal eraill a byddwn yn gweithio i ledaenu ein gwybodaeth yn ehangach.

> Darganfu “Gofal gydag Urddas?” nad oedd nifer o bobl hŷn, eu perthnasau a’u cynhalwyr yn dangos lefel uchel o ddealltwriaeth o’u hawliau, ac nid oedd ganddynt ddisgwyliadau uchel chwaith o’r modd y dylent gael eu trin. Byddai disgwyliad clir o’r hawl i dderbyn gofal gydag urddas yn gymorth i fynd i’r afael â hyn.’
>
> **Sarah Stone, Dirprwy Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru**



# 'Gofal gydag Urddas? Profiadau pobl hŷn mewn ysbytai yng Nghymru'

## Crynodeb o'r Argymhellion

**Newid diwylliant gofalu am bobl hŷn mewn ysbytai yng Nghymru**

1. Grymuso rheolwyr wardiau i redeg eu wardiau mewn modd sydd yn gwella urddas a pharch
2. Arfogi staff i gefnogi cleifion gyda dementia
3. Blaenoriaethu gofal ymataliaeth
4. Sicrhau bod ymgynghoriadau rhwng cleifion a staff clinigol yn cael eu cynnal mewn preifatrwydd
5. Dylai gwasanaethau iechyd a chymdeithasol leihau lefel oedi mewn rhyddhau o'r ysbyty a rheoli gofal yn fwy effeithiol gyda'i gilydd, pan fo pobl hŷn yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty.

**Darparu adnoddau ar gyfer gofal pobl hŷn yng Nghymru**

6. Defnyddio gwirfoddolwyr mewn dull creadigol
7. Datblygu offeryn i benderfynu a yw lefelau staffio ar wardiau yn ddigonol i ddarparu gofal gydag urddas
8. Gweithio gyda chleifion a staff i sicrhau bod wardiau newydd/wedi'u hail ddylunio yn amgylcheddau buddiol

**Creu'r amodau ar gyfer sicrhau mwy o urddas a pharch i'r sawl sy'n derbyn gofal mewn ysbyty**

9. Sicrhau bod pobl yn gwybod bod ganddynt yr hawl i dderbyn gofal gydag urddas
10. Dal a gweithredu ar brofiadau cleifion yn gyson ar draws Cymru
11. Dylai Llywodraeth Cymru ddal pob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre i gyfrif pan nad ydynt yn mabwysiadu arfer da heb resymau da.
12. Dylid hyfforddi gweithwyr iechyd proffesiynol i ddeall anghenion pobl hŷn pan maent yn yr ysbyty.





# 1. Hybu ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru

Pwysleisiodd y Comisiwn wrth y rhai sydd yn gwneud penderfyniadau yng Nghymru ac ar lefel Llywodraeth y DU ei bod yn hanfodol yn y cyfnod economaidd anodd hwn i amddiffyn y rhai sydd fwyaf bregus ac angen cefnogaeth. Fe wnaethom rybuddio bod rhaid i unrhyw newidiadau arfaethedig i wasanaethau'n berthynol i pobl hŷn sicrhau nad yw eu diogelwch ac ansawdd eu gofal yn cael ei beryglu.

Fe wnaethom gyflwyno cynrychioliadau i wleidyddion pob plaid yn seiliedig ar 'Oed yr Addewid', a nodir yn 'Galwadau gan y Comisiynydd'. Rydym wedi pwyso ar bob un ohonynt i wneud newidiadau ym meysydd polisi ac arfer fel tlodi, cydraddoldeb, trafnidiaeth, cynorthwyon ac addasiadau. Roeddem yn gallu mynegi pryderon o'n cyfarfodydd niferus gyda phobl hŷn ar draws Cymru.

Fe wnaethom gefnogi amrywiaeth pobl hŷn i lunwyr polisi a gwleidyddion a herio ystrydebu negyddol. Cynhaliwyd trafodaeth gyhoeddus ar agweddau tuag at heneiddio trwy waith a gomisiynwyd gennym gyda Sefydliad Materion Cymreig, a esgorodd ar y cyhoeddiad "Adding life to years – Welsh approaches to ageing policy".

Fe wnaethom gomisiynu ymchwil i ategu ein gwaith, yn cynnwys agweddau tuag at heneiddio, gwasanaethau gwybodaeth a chynghori, ac eiriolaeth a chwynion. Mae'r adroddiad hwn wedi llywio ein Hadolygiad cyntaf, ein datganiadau cyhoeddus a'n penderfyniadau am flaenoriaethau yn y dyfodol.

**Arolwg Barn**

Bu arolwg barn o 1,500 o bobl o bob oedran, a gomisiynwyd gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn 2010, yn holi pobl am eu barn ynglŷn â'r cyfraniad y mae pobl hŷn yn ei wneud, yn ogystal â gofyn iddynt a oeddent yn teimlo bod pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi gan gymunedau. Darganfu'r arolwg barn bod naw o bob deg (91%) person o bob oedran yn meddwl bod pobl hŷn yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i gymdeithas heddiw.

Roedd pobl yn teimlo bod gan sawl ffactor ddylanwad ar brofiad cadarnhaol wrth heneiddio. Mae'r rhain yn amrywio o gynnal annibyniaeth a bywyd teulu da i gael gafael ar drafnidiaeth a gallu mynd allan.

| Ffactorau sydd yn dylanwadu ar brofiad cadarnhaol wrth heneiddio | % * (Sylfaen - pob ymatebydd 1,003) |
|---|---|
| Sicrwydd ariannol | 51 |
| Iechyd da | 49 |
| Cefnogaeth gan ffrindiau a theulu | 20 |
| Gallu aros yn eich cartref eich hun | 8 |
| Cynnal annibyniaeth | 8 |
| Synnwyr cryf o gymuned | 8 |
| Bywyd teuluol/plant/teulu hapus/partner da | 5 |
| Trafnidiaeth/mynediad i drafnidiaeth | 4 |
| Cadw'n brysur/mynediad i gyfleusterau/gweithgareddau | 4 |
| Gofal iechyd | 3 |
| Diogelwch / bod yn saff | 3 |
| Cartref dymunol / to uwch fy mhen / ble rwy'n byw | 3 |
| Gofal gyda thâl | 2 |
| Cymdeithasu / cael cwmni / cyfeillgarwch | 2 |
| Bod yn symudol / gallu symud o gwmpas | 2 |
| Agwedd meddyliol cadarnhaol | 1 |
| Cyflogaeth / swydd | 1 |
| Ffydd / crefydd | 1 |
| Arall | 4 |
| Dim yn gwybod | 7 |

*Atebodd rhai pobl mwy nag un dewis

Fe wnaethom gasglu tystiolaeth ar draws Cymru i ddangos y gefnogaeth gyhoeddus eang i set cryfach o hawliau i bobl hŷn a chafwyd trafodaeth gyhoeddus am hyn trwy'r cyfryngau. Fe wnaethom hyrwyddo Egwyddorion Personau Hŷn y Cenhedloedd Unedig trwy ein datganiadau cyhoeddus a'u gwneud yn ganolog i'n hadolygiad 'Gofal gydag Urddas?'.



## Adroddiad ar y cyd gyda Chyngor ar Bopeth Cymru

Cynhyrchodd y Comisiwn Adroddiad ar y cyd gyda Chyngor ar Bopeth Cymru yn dadansoddi eu data ar yr amrediad o bynciau yr oedd pobl hŷn yn eu trafod gyda nhw. Dangosodd yr adroddiad lefel uwch na'r disgwyl o bryderon am ddyledion ymysg pobl dros 60 oed, yn ogystal â phryderon ynglŷn â phensiynau a budd-daliadau. Roedd y cyhoeddusrwydd a dderbyniodd yr adroddiad hwn yn gymorth i godi ymwybyddiaeth o bryderon ariannol pobl hŷn gan greu darlun ehangach o'r materion y mae ar bobl hŷn angen help i ddelio gyda nhw.

Dangosodd yr adroddiad bod y problemau mwyaf cyffredin yr oedd pobl hŷn angen cymorth gan y Cyngor ar Bopeth yn eu cylch yn ymwneud â budd-daliadau a dyledion. Roedd ymholiadau ynglŷn â dyledion yn uwch na'r disgwyl, yn chwarter o'r cyfanswm o ymholiadau. Mae hyn yn awgrymu bod rhai pobl hŷn yn cael anhawster i reoli eu harian a thalu eu biliau. Mewn cyfnod o doriadau mewn gwariant cyhoeddus, mae'r costau ychwanegol i bobl ar incwm isel yn bryder gwirioneddol, yn enwedig gan bod dros hanner y bobl hŷn yng Nghymru yn dibynnu ar bensiwn y wladwriaeth fel eu prif ffynhonnell incwm. Bydd y Comisiwn a Chyngor ar Bopeth Cymru yn parhau i fonitro ymholiadau pobl hŷn er mwyn llywio ein gwaith.

### Materion Gwledig

Amlygwyd y materion y mae pobl mewn ardaloedd gwledig ac ynysig yn eu wynebu yn ystod trafodaethau yn Sioe Amaethyddol Cymru yn Llanelwedd. Buom yn gweithio gydag Undeb Amaethwyr Cymru a'r Gwasanaeth Pensiwn i gyfarfod ffermwyr a'u teuluoedd oedd yn poeni am fynediad at wasanaethau yn cynnwys trafnidiaeth ac ysbytai.


Er mwyn dathlu Diwrnod Rhyngwladol Personau Hŷn y Cenhedloedd Unedig yn 2010, bu'r Comisiynydd yn yr Eisteddfod Ddwyieithog Pobl Hŷn yn Llangefni yn Ynys Môn. Roedd y digwyddiad yn ddathliad gwych o gerddoriaeth a barddoniaeth yn ogystal â chelf a chrefft. Yn y Drenewydd cafwyd gorolwg defnyddiol gan Gadeirydd a staff Age Concern Sir Drefaldwyn ac Age Concern Powys o'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i bobl hŷn yng nghanolbarth Cymru. Mae'r partneriaethau ar draws nifer o gyrff gwahanol yn darparu cefnogaeth hanfodol i bobl sydd yn byw yn rhai o'n cymunedau mwyaf ynysig.

Derbyniodd y Comisiynydd gyfle gan yr Eglwys yng Nghymru i gyfarfod Esgobion ac Archesgob Cymru a chreu cysylltiadau gyda phobl yn eu cymunedau lleol. Mewn Symposiwm Cymru Gyfan, datblygodd rhwydwaith anffurfiol yn cynnwys yr Eglwys yng Nghymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ac arweinwyr o Arolygiaeth Gwasanaethau Gofal a Chymdeithasol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cynghrair Cynhalwyr Cymru, y Gwasanaeth Pensiwn a Chyngor Gofal Cymru. Roedd hefyd yn cynnwys uwch gymrawd o Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru. Bu'r Symposiwm yn trafod y sialensau neilltuol y mae pobl hŷn mewn cymunedau gwledig yn eu wynebu. Roedd y pynciau allweddol yn cynnwys tlodi, yn cynnwys tlodi tanwydd a thrafnidiaeth.

Esgorodd y Symposiwm ar adroddiad oedd yn galw am weithrediadau penodol. Cafwyd dau ganlyniad: trafodaeth gadarnhaol ar y cyfryngau ac ymdrechion cydlynol i ddylanwadu ar ddatblygiadau gofal cymdeithasol yng Nghymru.







**Astudiaeth Achos Materion Gwledig – Cymorth Uniongyrchol**

Ysgrifennodd Mrs B at y Comisiwn ar ei rhan ei hun ac ar ran nifer o bobl hŷn sydd yn byw mewn cymuned wledig fechan yng Ngorllewin Cymru. Mae Mrs B yn trefnu grŵp plwyf pobl hŷn sydd yn mynychu cyfarfod wythnosol mewn tref ychydig bellter i ffwrdd. Mae'r trip wythnosol hwn yn bwysig meddai Mrs B oherwydd mae'r bobl hŷn yn y grŵp yn cael cyfle i ddefnyddio amrediad o wasanaethau lleol fel siopau a gwasanaethau meddygol nad ydynt ar gael yn y pentref, ond hefyd mae'n rhoi cyfle iddynt gymdeithasu a mynd allan o'r tŷ.

Yn ddiweddar hysbyswyd Mrs B bod y gwasanaeth bws sydd yn rhedeg unwaith y dydd o'r pentref i'r dref gyfagos yn dirwyn i ben. Mae Mrs B yn dadlau bod y gwasanaeth hwn yn holl bwysig o ran mynd i'r afael ag unigrwydd oherwydd bod hwn yn wasanaeth hanfodol ac y bydd y toriadau yn cael effaith negyddol ar fywydau nifer o'r preswylwyr hŷn yn y pentref.

Cysylltodd y Comisiwn gyda'r awdurdod lleol a gyda chynrychiolwyr y gymdeithas wirfoddol ranbarthol i fynegi pryderon yr ymholydd. Hysbyswyd y Comisiwn yn fuan wedyn gan Mrs B a'r gymdeithas wirfoddol bod cytundeb wedi'i wneud a bod y gwasanaeth bws yn mynd i gael ei ail gyflwyno.

# 2. Hybu darpariaeth cyfleoedd ar gyfer pobl hŷn a dileu gwahaniaethu yn eu herbyn

Mae'r Comisiwn wedi helpu i ffurfio ac adeiladu ar y cyfle a gynigiwyd gan ddeddfwriaeth trwy gymryd rhan yn y Grŵp Rhan Ddeiliaid Hŷn sydd yn edrych ar y Ddeddf Cydraddoldeb dan arweiniad Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth. Trwy ymatebion ymgynghoriad i'r llywodraeth yn San Steffan ac yng Nghymru fe wnaethom bwysleisio pwysigrwydd gweithredu'n llym ar ddirwyn gwahaniaethu ar sail oedran i ben mewn nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau.

Daeth y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i rym ar 1 Hydref 2010. Yn ystod y llynedd mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymgynghori ynglŷn â'r dyletswyddau y dylid eu gosod ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru er mwyn cael gwared ar wahaniaethu a hybu cyfle cyfartal. Fe wnaethom ddweud y dylai cyrff cyhoeddus esbonio'n glir beth y maent yn ei wneud i gael gwared ar wahaniaethu annheg ar sail oedran yng Nghymru a rhoi cyfrif am unrhyw fethiant i fynd i'r afael â gwahaniaethu o'r fath. Fe wnaethom gyflwyno sylwadau am agweddau oedran yng nghanllaw'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a gynhyrchwyd ar gyfer Cymru. Bydd hyn yn gymorth i gyrff cyhoeddus gyflawni'r dyletswydd cydraddoldeb yn fwy effeithiol.

Fe wnaethom bwyso am Egwyddorion Personau Hŷn y Cenhedloedd Unedig a'r angen i gynnwys rhoi terfyn ar wahaniaethu ar sail oedran mewn cynlluniau ar gyfer diwygio tâl am ofal. Fe wnaethom wneud cynrychioliadau i lunwyr polisi a chyfrannu at Gomisiwn Llywodraeth y DU sydd yn edrych ar ddyfodol talu am ofal. Fe wnaethom gynnal cyfarfod ymgynghori Cymru a sicrhau bod cynrychiolwyr pobl hŷn yn gallu cymryd rhan.

"Ni fydd yn dderbyniol bellach i gyfyngu ar ddyheadau ac anghenion pobl hŷn ar sail eu hoedran yn unig – ar y cyfan, bydd angen cyfiawnhau trin rhywun ar sail eu hoedran yn wrthrychol."

**Alun Thomas,**
**Pennaeth Adolygu, Archwilio a Pholisi, Comisiwn Pobl Hŷn Cymru**





### Ymchwil i effaith y cynllun teithio rhatach ar fysiau


Cynhaliodd y Comisiwn ymchwil i effaith y cynllun teithio rhatach ar fysiau ar bobl hŷn yng Nghymru, gyda'r pwyslais ar gael barn pobl hŷn eu hunain. Amlygodd y canlyniadau gefnogaeth gref pobl hŷn i'r cynllun teithio rhatach.

Darparodd yr ymchwil dystiolaeth gadarn bod y cynllun teithio rhatach ar fysiau yn rhoi cyfle i bobl hŷn barhau'n rhan o gymdeithas a gwella ansawdd eu bywydau. Roedd teimlad cryf ymysg yr ymatebwyr "y byddai ansawdd eu bywyd yn dioddef heb y cynllun teithio rhatach" (81% yn cytuno) ac y byddent yn "fwy unig ac yn gaeth i'r tŷ" (78% yn cytuno).

Roedd canfyddiad cryf hefyd ymysg yr ymatebwyr y byddai eu hannibyniaeth yn dioddef heb y cynllun: "mae cael tocyn bws yn caniatáu i mi fod yn fwy annibynnol" (92% yn cytuno) ac "mae'r tocyn bws yn caniatáu i mi wneud pethau'n haws" (93% yn cytuno).

Awgrymodd yr ymchwil bod y tocyn bws wedi bod o gymorth i gynyddu amlder y gwasanaethau bysiau, ac mae hynny wedi bod o fudd i bob grŵp.

Mae'r ymrwymiad traws bleidiol i gadw'r cynllun teithio rhatach ar fysiau ar ei ffurf bresennol yn galonogol. Teimlwn ei bod yn bwysig cael y sylfaen tystiolaeth gwerthfawr hwn sydd yn cynnwys lleisiau pobl hŷn yng Nghymru.




"Dylai cyllido gofal cymdeithasol fod yn deg ac yn glir, fel bod pobl yn gallu cynllunio ar gyfer bywyd yn nes ymlaen. Nid yw pobl hŷn eisiau colli asedau oes oherwydd eu bod angen gofal a chefnogaeth."

**Sarah Stone, Dirprwy Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

# 3. Annog arfer da wrth ymdrin â phobl hŷn yng Nghymru

**Cau cartrefi gofal ac ymchwil**
Mae gan y Comisiynydd ddiddordeb neilltuol mewn anghenion pobl hŷn sydd mewn sefyllfaoedd lle maent yn fregus. Trwy ein cysylltiad gyda phobl hŷn a gyda chyrff gwirfoddol a statudol ar draws Cymru rydym yn ymwybodol o bryder a thrallod pobl mewn cysylltiad â'r pwnc o gau cartrefi gofal.

Mae nifer o bobl hŷn wedi bod yn bryderus nad oes neb yn gwrando ar eu barn ac yn poeni y byddai'n rhaid iddynt adael eu cartref a'u ffrindiau. Mae ein gwaith yn y maes hwn wedi nodi angen am ganllaw cliriach i awdurdodau lleol ynglŷn â'r broses ymgynghori, yn benodol pan fo cartref gofal yn cau.

Rydym wedi cefnogi pobl hŷn a'u teuluoedd mewn sawl sefyllfa lle roedd cau cartrefi gofal dan ystyriaeth a gwnaethom gynrychioliadau ar eu rhan i Awdurdodau Lleol ac i'r Uchel Lys. Fe wnaethom bwysleisio pwysigrwydd hawliau a lles pobl hŷn eu hunain yn arbennig yn ogystal â mynediad at wasanaethau eiriolaeth annibynnol. Oherwydd ein hymyrraeth gwelwyd mwy o bwyslais yn cael ei roi i'r materion hyn.

Dangosodd ymchwil a gynhaliwyd ar ein rhan gan Gyngor ar Bopeth Cymru lefel rhyfeddol o uchel o ymholiadau ynglŷn â dyledion gan pobl hŷn a dangosodd yr ymchwil Advocacy Counts 3 a gynhaliwyd gan Age Cymru yr angen am ragor o gefnogaeth eiriolaeth sydd ar gael yn gyson.

Fe wnaethom ddatblygu ymchwil i edrych ar arfer da a gwael wrth gau cartrefi gofal mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Abertawe a threfnu dau seminar yn Abertawe a Bangor lle y cyflwynwyd canfyddiadau dros dro i'r rhai sydd yn gwneud penderfyniadau'n lleol ac i ymarferwyr lleol.

Mewn un ardal ble yr aeth perchnogion cartref gofal â'r Awdurdod Lleol i'r llys, cysylltodd preswylwyr a theuluoedd gyda ni i ddatgan eu bod yn teimlo'n ddiymadferth a'u bod wedi dal yng nghanol yr anghydfod. Fe wnaethom ysgrifennu at y llys yn amlinellu'r pryderon hyn a gofyn i'r llys wrando ar yr achos yn gyflym. Cafodd yr achos ei gynnal cyn gynted â phosibl a dangosodd sylwadau'r barnwr ei fod yn ystyried buddiannau'r preswylwyr yn fawr iawn.





**Hawliau cyplau mewn cartrefi gofal**
Dywedwyd wrthym y gallai cwpl sydd yn byw mewn cartref gofal gael eu gwahanu oherwydd bod gan y cwpl anghenion gofal gwahanol. Fe wnaethom gysylltu gyda'r awdurdod lleol dan sylw a mynegi ein pryder y gallai hyn fod yn bosibilrwydd. Fe wnaethom ddatgan bod gwahanu cwpl fel hyn, heb wneud pob ymdrech posibl i'w cadw gyda'i gilydd, yn torri ar eu hawl i gael parch tuag at eu bywyd preifat a theulu. Llwyddodd yr awdurdod lleol i gael llety oedd yn darparu ar gyfer anghenion y ddau bartner .

**Eiddilwch**
Ym mis Mawrth 2011 cynhaliodd y Comisiwn seminar gan ddwyn ynghyd rhan ddeiliaid i ystyried ymagwedd Cymru tuag at eiddilwch. Nododd y grŵp gytundeb, arfer gorau, rhwystrau i gynnydd a meysydd ar gyfer trafodaeth bellach. Bydd y Comisiwn yn cyhoeddi adroddiad yn 2011-12 yn cynnwys yr uchafbwyntiau allweddol a bydd yn gweithredu fel 'brocer gonest' i wella gwasanaethau fel eu bod yn gydweithredol, yn gymunedol ac yn addas i anghenion pobl hŷn bregus.

"Rwyf wedi monitro'r sefyllfa yn ofalus ac rwyf wedi siarad gyda Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynglŷn â chau cartrefi gofal. Fy mhrif bryder bob amser yw preswylwyr cartrefi gofal a'u teuluoedd sydd yn wynebu ansicrwydd. Byddaf yn parhau i fonitro'r modd y mae awdurdodau lleol a darparwyr annibynnol yn amddiffyn buddiannau pobl hŷn yng Nghymru. Mae'n holl bwysig ein bod yn cydnabod hawliau dynol y preswylwyr sydd yn byw mewn cartrefi gofal."

**Ruth Marks,**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

**Advocacy Counts 3**
Yn 2010 cefnogodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru Age Cymru i gynnal yr arolwg Advocacy Counts am y trydydd tro. Ymatebodd 20 o gyrff i'r arolwg ar-lein i nodi eu bod yn darparu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol, ac mae 11 ohonynt yn darparu gwasanaethau i bobl hŷn fel rhan o grŵp client ehangach. Roedd ymatebwyr yn cynnwys gwasanaethau cwynion, gwasanaethau Eiriolaeth Gallu Meddyliol Annibynnol, gwasanaethau eiriolaeth iechyd meddwl, gwasanaethau cam-drin domestig, ac elusennau Age Concern lleol ymysg eraill.

Mae Advocacy Counts 3 yn adeiladu ar yr wybodaeth llinell sylfaen a gafwyd trwy Advocacy Counts 1 a 2, oedd yn amlygu darlun llwm o gyflwr gwasanaethau eiriolaeth yng Nghymru.

Er bod gwelliant bychan wedi bod ers 2008, amlygodd Advocacy Counts 3 bod llawer mwy angen ei wneud i sicrhau bod gan bobl hŷn fynediad digonol at wasanaethau eiriolaeth annibynnol pan fyddant eu hangen.

Mae'r adroddiad yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am gyflwr gwasanaethau eiriolaeth ar y llawr. Mae'n datgan bod 22 o wasanaethau yn darparu eiriolaeth i bobl hŷn yng Nghymru – un yn llai nag yn yr arolwg gwreiddiol yn 2007 ac mae nifer o ardaloedd o hyd yng Nghymru heb eiriolaeth generig neu arbenigol wedi'i gyllido.

Yn dilyn ei lansio yn y Senedd, codwyd Datganiad o Farn ysgrifenedig gan dri Aelod Cynulliad yn croesawu Advocacy Counts 3. Roedd yn nodi pwysigrwydd eiriolwyr annibynnol wrth gefnogi pobl hŷn bregus i wneud penderfyniadau am eu bywydau eu hunain; ac yn ymrwymedig i sicrhau bod y rhai sydd angen cefnogaeth i fynegi barn yn cael cyfle i wneud hynny. Llofnodwyd hyn gan saith Aelod Cynulliad arall.

Mae Cymru yn destun cryn ddiddordeb ar draws y byd oherwydd y strwythurau a'r partneriaethau sydd yn cefnogi pobl hŷn i gael llais yn y meysydd allweddol sydd yn effeithio arnynt. Bu'r Comisiwn yn gweithio gydag amrediad o gyrff i rannu gwersi a ddysgwyd yng Nghymru a rhannu arfer gorau. Gwahoddwyd y Comisiynydd a'r Dirprwy Gomisiynydd i ddwy gynhadledd ryngwladol. Cyfarfu'r Comisiynydd gyda Swyddog Iau a swyddogion o Weithrediaeth Gogledd Iwerddon wrth iddynt ddatblygu deddfwriaeth Comisiynydd Pobl Hŷn Gogledd Iwerddon.

**Yn syml gellir disgrifio eiriolaeth fel:**
"...gweithredu i helpu pobl i ddweud beth y maent eisiau ei ddweud, diogelu eu hawliau, cynrychioli eu buddiannau a chael y gwasanaethau y maent eu hangen. Mae eiriolwyr a chynlluniau eiriolaeth yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r bobl y maent yn eu cefnogi ac yn cymryd eu hochr. Mae eiriolaeth yn hybu cynhwysiant cymdeithasol, cydraddoldeb a chyfiawnder"

**(Gweithredu dros Eiriolaeth, Siarter Eiriolaeth, www.actionforadvocacy.org.uk)**





# 4. Adolygu pa mor ddigonol ac effeithlon yw'r gyfraith sydd yn effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru

Buom yn monitro deddfwriaeth cyfredol a deddfwriaeth potensial sydd yn effeithio ar les pobl hŷn yng Nghymru trwy ei cyfranogiad ar y Bwrdd Prosiect ar amddiffyn oedolion a sefydlwyd gan y Dirprwy Weinidog gyda chyfrifoldeb dros bobl hŷn. Fe wnaethom drefnu ymweliad darganfod ffeithiau i'r Alban i edrych ar y gwersi sydd i'w dysgu o weithrediad deddfwriaeth Cefnogi ac Amddiffyn Oedolion yn yr Alban. Fe wnaethom gynhyrchu adroddiad dylanwadol sydd wedi llywio meddwl yng Nghymru a bydd o gymorth pellach yn y dyfodol. Buom yn pwyso am welliannau i ddeddfwriaeth yn y maes hwn a chyfrannu at waith Comisiwn y Gyfraith ar ddiwygiad potensial i gyfraith gofal cymdeithasol i oedolion.

Buom yn ymgysylltu gydag eraill i ystyried pa mor ddigonol yw deddfwriaeth amddiffyn oedolion cyfredol trwy gynhyrchu adroddiad o'r gynhadledd a gynhaliwyd yn 2009/10 mewn partneriaeth gyda Chomisiwn y Gyfraith ac Age Cymru, a thrwy gynrychioliadau i wleidyddion a llunwyr polisi.

Buom yn cynghori Llywodraeth Cymru wrth iddo ddatblygu prosiect peilot a fydd yn galluogi pobl hŷn sydd yn dioddef camdriniaeth domestig i gael gwell mynediad at gyfiawnder. Fe wnaethom ddweud bod angen rhoi terfyn ar wahaniaethu ar sail oedran yn y system cyfiawnder a bod rhaid cefnogi pobl hŷn yn gywir, os yw achos yn mynd i'r llys ai peidio. Mae'r cynllun peilot yn cael ei gynnal yn Abertawe am un flwyddyn o fis Rhagfyr 2010.

**'Amddiffyn pobl hŷn yng Nghymru: canllaw i'r gyfraith'**
Yn Adroddiad y Comisiynydd yn 2009/9, fe wnaethom ddweud ein bod wedi comisiynu canllaw ymarferol i'r gyfraith gyfredol sydd yn amddiffyn pobl hŷn yng Nghymru. Ysgrifennwyd y canllaw gan yr Athro John Williams o Brifysgol Aberystwyth ac fe'i cwblhawyd ym mis Mawrth 2011. Mae nifer o bobl sydd yn gweithio gyda phobl hŷn wedi croesawu'r canllaw hwn sydd yn amlinellu'n glir y meysydd o'r gyfraith y dylai ymarferwyr wybod amdanynt. Caiff y canllaw ei lansio yn swyddogol ar 15 Mehefin 2011 – Diwrnod Ymwybyddiaeth Cam-drin Hynafgwyr y Byd.

## Amddiffyn Oedolion – Dysgu oddi wrth yr Alban

Fe wnaethom drefnu ymweliad darganfod ffeithiau i'r Alban i edrych ar y gwersi sydd i'w dysgu o weithrediad deddfwriaeth Cefnogi ac Amddiffyn Oedolion yr Alban. Fe wnaethom gynhyrchu adroddiad sydd wedi llywio meddwl yng Nghymru ac a fydd o gymorth pellach yn 2011/12.

Bu'r ymweliad yn ddefnyddiol ar lefel ymarferol. Bu'n gymorth i ni ragweld rhai o'r problemau ymarferol y gellid eu wynebu pe bai Cymru yn cyflwyno rhyw lun o ddeddfwriaeth amddiffyn oedolion. Mae agweddau o Ddeddf yr Alban y byddem yn eu hystyried o fudd neilltuol i amddiffyn oedolion yng Nghymru yn cynnwys:

- → Dyletswydd i gydweithredu
- → Dyletswydd i rannu gwybodaeth
- → Dyletswydd i wneud ymholiadau yn gynnar pan fo amheuaeth o niwed, yn hytrach na phan fo amheuaeth o niwed difrifiol
- → Dyletswydd i ddarparu eiriolaeth pan fo angen (mae hyn yn mynd un cam ymhellach na'r ddyletswydd yn Neddf yr Alban i ystyried darpariaeth eiriolaeth)

Yn y Papur Gwyn diweddar ar Wasanaethau Cymdeithasol dywedodd Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol y bydd y llywodraeth yn ystyried ble y gellid gwneud newidiadau i gryfhau diogelu oedolion yng Nghymru, gan gymryd i ystyriaeth profiad y system newydd yn yr Alban.[1]

([1] Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith ar gyfer Gweithredu, Llywodraeth Cymru, Chwefror 2011, para 3.77)





## 5. Sicrhau bod modd cyflawni'r amcanion a restrir uchod mewn ffyrdd sy'n briodol a rheolaidd, yn ddoeth ac yn ddarbodus, sy'n defnyddio adnoddau yn effeithiol ac yn effeithlon ac sy'n adnabod ac yn rheoli risgiau.

Rydym yn parhau i chwilio am ffyrdd o gynyddu ein heffeithlonrwydd a'n heffeithiolrwydd, i wneud y defnydd gorau o'n sgiliau a'n hadnoddau. Fel corff sydd yn dysgu rydym yn monitro ac yn gwerthuso ein gwaith a'r canlyniadau yr ydym yn eu cyflawni yn rheolaidd. Rydym yn defnyddio'r hyn a ddysgwn i ddatblygu a gwella'r modd yr ydym yn gweithio.

**Adnoddau mewnol**

Yn ystod 2010/11, bu'r Comisiwn yn gweithio tuag at statws efydd yng Ngwobr Iechyd Gweithle Bychan yn ystod y flwyddyn, a chyflawnwyd hynny. Gwnaethpwyd cynnydd sylweddol hefyd tuag at gyflawni safon Buddsoddi mewn Pobl.

**Gwerthusiad annibynnol**

Mae gwerthusiad annibynnol tair blynedd o berfformiad y Comisiwn gan ARAD Consulting wedi datblygu yn ystod y flwyddyn; mae fframwaith gwerthuso wedi'i ddatblygu ac mae adroddiad adborth gan ran ddeiliaid wedi'i gyhoeddi. Mae'r Comisiwn wedi derbyn adborth yn rheolaidd gan y broses werthuso ac wedi defnyddio hynny wrth asesu datblygiad y cynllun strategol ac awgrymiadau ar gyfer ymgysylltu gyda chyrff eraill.

**Cyfleoedd cyfartal**

Rydym wedi ymrwymo i gyfle cyfartal ac yn ceisio cyflogi gweithlu amrywiol. Mae pob cais yn cael ei ystyried ar y sail y dylai ymgeiswyr am swyddi gael cyfle cyfartal i gyflogaeth a datblygiad ar sail eu gallu, cymwysterau ac addasrwydd ar gyfer y swydd.

Ni ddylai'r un ymgeisydd am swydd dderbyn triniaeth llai ffafriol ar sail oedran, hil, lliw, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, crefydd, cyfrifoldebau teulu/domestig na phatrymau gweithio ac ni ddylai'r un unigolyn fod dan anfantais oherwydd amodau neu ofynion na ellir dangos bod modd eu cyfiawnhau.

**Cynaliadwyedd amgylcheddol**

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i arferion amgylcheddol da. Nodir enghreifftiau o sut yr ydym yn dilyn stiwardiaeth amgylcheddol da yn y Cyfrifon Blynyddol ac mae'n cynnwys y defnydd o ynni, y defnydd o drafnidiaeth cyhoeddus, rheolaeth papur a gwaredu gwastraff.

**Diogelu data personol**
Mae'n ofynnol i ni adrodd am unrhyw golli, datgelu heb awdurdodaeth ac unrhyw waredu anniogel data personol sydd wedi'i ddiogelu.

Gallwn adrodd na fu unrhyw achosion o golli, datgelu heb awdurdodaeth na gwaredu anniogel data personol wedi'i ddiogelu yn 2010/11.

**Gwefan y Comisiwn**
Ym mis Mawrth 2011 lansiodd y Comisiwn ei wefan allanol ddiwygiedig ar ôl ymgynghori gyda phobl hŷn a grwpiau.

Mae'r wefan yn un o'r prif ffyrdd y mae pobl yn darganfod beth yw gwaith y Comisiwn a nod y wefan ddiwygiedig yw gwneud yr wybodaeth hon mor hygyrch â phosibl. Rydym wedi adeiladu ymgysylltiad pellach gyda rhan ddeiliaid a phobl hŷn i gynllunio a datblygiad y wefan ac rydym yn gobeithio gweithio'n agos gyda'r grwpiau hyn yn y dyfodol i sicrhau ei bod yn gweithio'n dda ar gyfer ei defnyddwyr.

**Cyllideb**
Mae'r Comisiwn wedi'i gyllido gan, ond mae'n weithrediadol annibynnol oddi wrth Weinidogion Cymru ac mae'n atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am y defnydd o adnoddau. Yn 2010-11 derbyniodd y Comisiwn gyllid o £1.8miliwn i gyllido ei weithgarwch.

**Archwiliad**
Roedd barn yr archwilwyr mewnol yn datgan, yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd am y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2011, bod gan y Comisiwn reolaeth risg, prosesau rheoli a llywodraethu digonol ac effeithiol i reoli cyflawniad ein hamcanion.

Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol dystysgrif archwilio diamod ar ddatganiadau ariannol 2010-11. Am ragor o wybodaeth edrychwch ar ein Cyfrifon Blynyddol yn www.olderpeoplewales.com neu cysylltwch â ni i ofyn am gopi.

**Gweithio mewn partneriaeth**
Rydym wedi cwblhau yn llwyddiannus memoranda dealltwriaeth a chytundebau cyfathrebu gyda chyrff partneriaid allweddol eraill, yn cynnwys Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru. Rydym wedi cytuno ar sut y caiff gwybodaeth ei rhannu gyda rheoliadau a mesurau diogelwch priodol.

**Cwynion**
Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion ffurfiol i'r Comisiynydd yn 2010-11 oedd yn galw am ymchwiliad o dan ein gweithdrefn cwynion.

**Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth**
Yn 2010-11 fe wnaethom dderbyn 4 cais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.






Ruth Marks yn gweithio gydag aelodau o Dîm y Comisiwn

**Cynllun Cyhoeddi**
Rydym wedi parhau i sicrhau bod gwybodaeth am y Comisiwn a'n gwaith ar gael yn rheolaidd trwy ein Cynllun Cyhoeddi a'n gwefan.

**Cynllun yr iaith Gymraeg**
Yn ystod 2010-11 ni wnaethom dderbyn unrhyw gwynion o dan ein Cynllun Iaith Gymraeg.

# Rhagolwg

Yn 2010-11 defnyddiodd y Comisiynydd ei phwerau cyfreithiol i adolygu am y tro cyntaf a chyhoeddodd 'Gofal gydag Urddas?' ei Hadolygiad i barch ac urddas mewn ysbytai. Yn ystod 2011-12 bydd y Comisiynydd a'i thîm yn datblygu'r defnydd o'i phwerau ymhellach i graffu, herio, adolygu, archwilio a chynorthwyo.

Byddwn yn sicrhau bod lleisiau pobl hŷn yn cael eu clywed a byddwn yn dal cyrff i gyfrif lle nad ydynt yn cefnogi pobl hŷn bregus yn gywir. Byddwn yn parhau i gynorthwyo pobl hŷn i gael gafael ar wybodaeth a gwasanaethau ac yn darparu cefnogaeth iddynt i ddatrys problemau.

Byddwn yn ymgysylltu gyda phobl hŷn ar draws Cymru trwy gyfarfodydd a chynrychiolwyr cyrff pensiynwyr, ymweliadau wedi'u cynllunio gyda grwpiau, prosiectau a chyfarfodydd pobl hŷn ar draws Cymru, yn ogystal â chysylltiad gyda phobl hŷn unigol trwy ein Tîm Gwybodaeth ac Ymholiadau.


Byddwn yn parhau i ymateb i ymholiadau oddi wrth bobl hŷn. Rydym yn cofnodi data allweddol ar y cysylltiadau hyn trwy ein system rheoli busnes ac yn cynhyrchu ystadegau ar amrediad a natur yr ymholiadau hynny er mwyn llywio ein gwaith; mae hyn yn nodi meysydd lle mae angen i ni weithredu.

Mae ein holl ymholiadau yn rhoi sylfaen dystiolaeth gref i ni am y materion sydd yn effeithio ar bobl hŷn, a gallwn ei defnyddio i helpu i greu ein cynllun gwaith ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Bydd y prif feysydd gwaith ar gyfer 2011-12 yn cynnwys

- Monitro gweithrediad argymhellion y Comisiynydd yn "Gofal gydag Urddas?" – yr Adolygiad i driniaeth pobl hŷn mewn ysbytai mewn perthynas ag urddas a pharch
- Dilyn i fyny ar weithgareddau 2010-11
- Gwahaniaethu ar sail Oedran, yn cynnwys gweithrediad Deddf Cydraddoldeb 2010
- Gwasanaethau gwybodaeth a chyngor; a chanolbwyntio yn arbennig ar dlodi pensiynwyr  a sut orau i sicrhau mynediad effeithiol i wybodaeth a chyngor perthnasol am fudd-daliadau ychwanegol a chymorth wrth reoli arian
- Gofal cymdeithasol mewn lleoliadau domestig a phreswyl
- Trefniadau ar gyfer eiriolaeth a chwythu'r chwiban

Trwy gyfrwng ein gwaith yn ystod y flwyddyn nesaf byddwn yn ystyriol o'r sefyllfa ariannol mewn perthynas â gwasanaethau cyhoeddus, yn ceisio deall effaith hynny ar bobl hŷn a sicrhau nad ydynt yn cael eu heffeithio yn anghymesur.



# Diolch a chydnabyddiaeth

Diolch yn fawr i’r holl unigolion a chyrff a ddarparodd gefnogaeth, cyngor ac arweiniad dros y flwyddyn ddiwethaf. Tra bod llawer gormod i’w rhestru hoffem gydnabod yn arbennig:

- Yr holl bobl hŷn a’u teuluoedd, cynhalwyr, ffrindiau ac eiriolwyr sydd wedi cysylltu â ni i rannu eu profiadau – daliwch ati i wneud hynny.
- Yr unigolion, grwpiau a chyrff sydd wedi gweithio gyda ni i’n helpu i wrando ar bobl hŷn a chyflwyno ystod o waith ac ymchwil.
- Y bobl a’r cyrff sydd wedi ein helpu i werthuso ein gwaith a sicrhau ein bod yn gyfreithiol alluog.

**Dogfennau**
Mae unrhyw ddogfennau y cyfeirir atynt yn yr Adroddiad hwn ar gael ar ein gwefan yn www.olderpeoplewales.com neu wrth ofyn amdanynt. Mae pob astudiaeth achos yn berthynol i enghreifftiau nodweddiadol o’r wybodaeth a dderbyniwn, yn hytrach nag achosion penodol, er mwyn gwarantu bod pobl sydd yn cysylltu gyda’r Comisiwn yn parhau’n ddienw.

Gallwch gael copi o’r cyfrifon blynyddol wedi’u harchwilio’n llawn ar gyfer 2010-11. E-bostiwch gofyn@olderpeoplewales.com neu eu gweld ar ein gwefan.

Nid oes yr un o’r ffotograffau a ddefnyddiwyd yn yr Adroddiad hwn (ac eithrio’r ffotograff o Ruth Marks) yn ymwneud â’r astudiaethau achos a’r cysylltiadau a grybwyllir yn yr Adroddiad. Daeth pob ffotograff arall o www.veer.com.

Delwedd y clawr blaen yw Traeth a Glan y Môr Llandudno, Gogledd Cymru, © Hawlfraint y Goron (2011) Croeso Cymru

Cysylltu â Ni
Os hoffech ragor o wybodaeth am Gomisiwn Pobl Hŷn Cymru, neu os oes gennych ymholiad neu os hoffech roi adborth i ni ar gynnwys neu ddyluniad yr adroddiad hwn, cysylltwch â ni os gwelwch yn dda yn:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru,
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart,
Caerdydd,
CF10 5FL.

Ffôn: 08442 640670
E-bost: gofyn@olderpeoplewales.com